# *Ein Cwm Taf*

# Cynllun Lles drafft Cwm Taf 2018-2023

BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
CWM TAF
PUBLIC
SERVICES
BOARD

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Ein amcanion llesiant drafft** | **11** |
| **Drafft Amcan 1:**<br>**I hybu cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus, gwella lles preswylwyr ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein asedau cymunedol.** | **12** |
| **Drafft Amcan 2:**<br>**I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.** | **15** |
| **Drafft Amcan 3:**<br>**I dyfu economi leol gref gyda trafnidiaeth cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.** | **19** |
| **Sut i gymryd rhan a dweud eich dweud**<br>**Linc i'r ymgynghoriad ein Cwm Taf:**<br>http://www.smartsurvey.co.uk/s/CwmTafCym/ | **23** |
| **Atodiad 1**<br>**Model rhesymeg sy'n dangos datblygu amcanion llesiant** | **34** |

# Cyflwyniad

### *Y Cynllun Lles a pham y mae arnom ei angen*

Yn 2015, creodd Llywodraeth Cymru gyfraith newydd yng Nghymru a elwir yn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dilynodd hyn sgyrsiau gyda llawer o filoedd o bobl ledled Cymru am y "Cymru yr ydym am ei gael". O'r sgyrsiau hyn, darganfyddodd y Llywodraeth yr hyn sydd bwysicaf i bobl yng Nghymru, pethau fel newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd, sgiliau, addysg, swyddi ac iechyd.

Mae'r gyfraith newydd hon yn rhoi dinasyddion Cymru yng nghanol popeth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae ganddi egwyddor datblygu gynaliadwy wrth ei chalon. Mae hyn yn golygu bod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella lles pobl heddiw heb wneud unrhyw beth a allai wneud pethau'n waeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, mewn geiriau eraill ein holl deuluoedd , yn ifanc ac yn hen, a'n ffrindiau a'n cymdogion




Bydd y clip fideo hwn yn helpu i'w esbonio. Stori Megan

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i'n holl wasanaethau cyhoeddus, e.e. cynghorau, iechyd, yr heddlu, sefydliadau tân a'r trydydd sector i wella lles i bawb a phob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae hon yn ddull newydd o wella gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd gynaliadwy a rhaid inni oll weithio tuag at saith nod newydd a ddangosir yma:




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus weithredu mewn pum ffordd:




Yn ogystal â gweld pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yn y modd hwn, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i bob gwasanaeth cyhoeddus ddod at ei gilydd a ffurfio ***Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*** fel y gallant weithio'n well gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau yn yr ardal.

Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn newydd, ond mae ymagwedd newydd gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'u cymunedau i wella eu lles mewn ffordd gynaliadwy i fodloni'r saith nod a'r pum ffordd o weithio. Yn bwysig, rydym yn cael ein hannog i feddwl am y tymor hir, felly dyma gam cyntaf cynllun hirdymor.

## *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf - cydweithio a gwneud pethau'n wahanol*

Yn lleol, mae ein gwasanaethau cyhoeddus wedi cytuno i ddod ynghyd ar draws Cwm Taf, gan gynnwys awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful a rhannu'r un ardal â Bwrdd Iechyd Cwm Taf. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi cytuno i ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus cydweithredol sy'n rhoi'r bobl yn ein cymunedau yn ei ganol. Mae'n ymwneud â thorri rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a newid y ffordd y maent yn gweithio er mwyn atal problemau rhag digwydd yn hytrach na gorfod ymateb iddynt.




Y llynedd, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Asesiad o Les pobl a chymunedau Cwm Taf. Buont yn siarad â channoedd o bobl e.e. pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardal Cwm Taf, grwpiau cymunedol ac unrhyw un arall a oedd am ddweud eu dweud. Mae canfyddiadau'r Asesiad hwn bellach yn cael eu defnyddio i helpu i ddechrau gwaith mwy manwl i ddarganfod beth sydd bwysicaf a beth y gellir ei wneud i wella lles pobl. Nodir hyn yn Amcanion Lles a fydd yn ei dro yn llywio Cynllun Lles ar gyfer ardal Cwm Taf. Mae'n bwysig bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud pethau'n wahanol i wella lles yng Nghwm Taf. Ym mhob cam o'i waith, mae'r Bwrdd yn parhau i siarad â phobl a'n cymunedau fel bod eu barn yn helpu i lywio a llunio'r cynllun terfynol:




Mae gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol rôl hefyd wrth gynghori Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddatblygu eu Hamcanion a'u Cynllun Lles ac wrth fonitro cynnydd

## *Lles*

Mae Lles yn ymwneud â phobl sydd â'r 'asedau' y mae eu hangen arnynt i gwrdd â'r 'heriau' y maent yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd. Gall yr asedau hyn gynnwys sgiliau, cefnogaeth i deuluoedd, addysg ac iechyd da. Gallai heriau fod yn iechyd gwael, bwlio, esgeuluso neu drais yn y cartref. Pan fydd gan bobl fwy o heriau nag asedau mae eu lles yn gwaethygu. Yn yr un modd os oes gan rywun lawer o asedau ond ychydig o heriau, efallai na fyddant yn teimlo eu bodloni ac y gall hynny hefyd aflonyddu’r cytbwysedd, fel y dangosir:

# Model o Lesiant




Ffynhonnell; wedi'i addasu o Dodge R et al (2012) *The challenge of defining wellbeing, International Journal of Wellbeing,* 2 (3) 22-235

Gall gwahaniaethau mewn cyfle, profiad ac iechyd gael effaith wael ar les. Gall hyn ddangos ei hun mewn lefelau uchel o bryder, iselder ysbryd, meddyginiaeth gaethiwus, camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Yn ogystal, gwyddom y gallwn ddiogelu ein lles drwy fod yn ffit, yn weithgar, peidio ysmygu, bod o bwysau iachus a bwyta ffrwythau a llysiau.

Yng Nghwm Taf, cynhaliwyd yr Asesiad Lles trwy siarad â'n cymunedau ac edrych ar wybodaeth arall.

## *Cynllun Lles drafft Cwm Taf*

Yn gyntaf, mae'n *waith mewn datblygiad*, sy'n golygu bod gennych chi'r cyfle i ddweud wrthym beth yw'ch barn chi a beth sy'n bwysicaf i chi cyn iddo gael ei gwblhau.

Pwrpas y cynllun drafft hwn yw cychwyn y sgwrs ac yna i gytuno ar y prif amcanion y bydd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno er mwyn gwella lles ar draws Cwm Taf. Bydd y cynllun yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y pum mlynedd nesaf ond bydd hefyd yn edrych i'r tymor canolig a hirach.

**Beth hoffech chi i'ch cymuned fod mewn 5 mlynedd, 15 mlynedd a 30 mlynedd?**

## Yr hyn y dywedodd yr Asesiad Lles wrthym

Y brif wybodaeth a ddysgom o'r Asesiad Lles yw:

| **Lles diwylliannol** |
|---|
| • Mae angen i bobl deimlo'n rhan o'u cymuned ac mae llawer am gynnig eu hamser, eu sgiliau a'u cysylltiadau.<br>• Dylai ein treftadaeth, hanes, tirwedd ac adeiladau gael eu dathlu a'u defnyddio yn y dyfodol.<br>• Mae'n ymddangos bod cymryd rhan mewn pethau'n dda ar gyfer lles pawb.<br>• Mae iaith yn rhan bwysig o bwy ydym ni ac yn ein gwneud i ni i deimlo ein bod ni'n perthyn. |

| **Lles economaidd** |
|---|
| • Tyfu economi lleol gwydn sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang.<br>• Helpu i symud pobl ledled Cwm Taf.<br>• Pobl mewn gwaith gweddus yn gwella eu cyfoeth cyffredinol.<br>• Pobl yn ennill sgiliau a chymwysterau newydd i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu.<br>• Datblygiad sy'n hwyluso economi leol sy'n tyfu ac yn cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang. |

| Lles amgylcheddol |
| --- |
| • Amgylchedd naturiol iach yw'r sylfaen ar gyfer twf economaidd, ffyniant a gwydnwch parhaus.<br>• Mae gan amgylchedd Cwm Taf (trefol a chefn gwlad) ran bwysig i'w chwarae wrth wella iechyd a lles pobl.<br>• Mae pobl eisiau byw mewn amgylchedd glân, diogel ac yn gynyddol am helpu i reoli eu hardaloedd lleol.<br>• Mae cymunedau'n wynebu risgiau sylweddol o hinsawdd sy'n newid, yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae bywyd gwyllt unigryw Cwm Taf yn fwyfwy darniog ac o dan fygythiad ond gall pobl wneud gwahaniaeth a helpu bywyd gwyllt i ffynnu.<br>• Mae plant yn treulio llai o amser yn yr awyr agored ond dangoswyd bod mynediad at ofod chwarae diogel, naturiol yn gwella lles corfforol ac emosiynol plant. |

| Lles cymdeithasol |
| --- |
| • Mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn gwella yng Nghwm Taf. Fodd bynnag, mae canlyniadau ar gyfer ein poblogaeth yn cael eu pennu gan yr anghydraddoldebau sy'n parhau.<br>• Mae cychwyn da mewn bywyd yn hanfodol i les cenedlaethau'r dyfodol.<br>• Mae atal afiechyd ar draws y boblogaeth yn gwella lles ac yn lleihau anghydraddoldebau.<br>• Heneiddio'n dda yng Nghwm Taf: diwallu anghenion poblogaeth hŷn.<br>• Lles meddyliol: adeiladu cymunedau gwydn.<br>• Gwydnwch personol a chydlyniant cymunedol.<br>• Mae ansawdd y cartref a'r amgylchedd yn cael effaith sylweddol ar les.<br>• Newid ffocws ar gyfer Cwm Taf: o ddiffygion i asedau. |

Mae'r Asesiad Lles hefyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl arall y gallwch ei weld drosoch eich hun yn
http://www.eincwmtaf.cymru/cwm-taf-wellbeing-assessment

Mae Atodiad 1 yn dangos sut mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lunio'r Amcanion Lles drafft.

Mae yna gyfraith newydd arall, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r gyfraith hon yn ceisio gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Poblogaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu i ddatblygu Cynllun Ardal ar gyfer y gwasanaethau hyn yng Nghwm Taf. Mae rhannau o'r ddau gynllun sy'n effeithio ar les pobl yn ein cymunedau ac mae'n bwysig eu bod i gyd yn cydweithio'n dda ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Wrth ddatblygu'r ddau gynllun, byddwn yn cadw cysylltiadau cryf i wneud hyn i weithio'n dda.

Pan fydd gwybodaeth arall ar gael, gall hynny hefyd helpu i lunio'r cynllun. Er enghraifft, cynhaliwyd asesiad yn ddiweddar ar gyfer diogelwch cymunedol. Yn ogystal, mae Llywodraeth

Cymru wedi sefydlu tasglu Gweinidogol i wella ffyniant yng Nghymoedd y De. Mae adroddiad diweddar Tasglu'r Cymoedd wedi awgrymu nifer o gamau gan gynnwys Parc Tirwedd y Cymoedd i hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a thwristiaeth.

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r Asesiad, mae cynllun drafft y BGC wedi'i gasglu fel man cychwyn i sgwrs gyda phobl a'n cymunedau a rhanddeiliaid eraill dros yr hydref a fydd yn llywio'r Cynllun Lles terfynol.

## *Gwrando ar ein Cymunedau - yr hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthym hyd yn hyn*

Rydym wedi bod yn siarad â phobl ar draws Cwm Taf dros fisoedd yr haf a chrynodeb o'r hyn maen nhw wedi'i ddweud wrthym hyd yma yw;

- Dywedodd nifer o bobl eu bod yn cytuno â thôn cyffredinol yr amcanion lles drafft.
- Yn aml, dywedodd pobl fod llawer o adnoddau ac asedau ar gael eisoes i gefnogi cymunedau ffyniannus ac i helpu pobl i fyw'n hirach. Fodd bynnag, nid yw trigolion bob amser yn ymwybodol eu bod yn bodoli na sut y gallant gael mynediad atynt.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylid defnyddio ac adeiladu ar asedau presennol, a nododd nifer fod rhai asedau eisoes wedi'u cau. Mae cymunedau eisiau ymdeimlad o berchnogaeth.
- Soniwyd am yr angen i hyrwyddo adnoddau ac asedau, marchnata a chyfathrebu'r hyn sydd eisoes yn bodoli sawl gwaith. Dylem wneud y defnydd gorau posibl o'r hyn sydd gennym eisoes ac adeiladu ar hynny. Roedd rhai, ond nid pawb, yn hoffi'r syniad o wirfoddoli, felly beth ellir ei wneud i bontio hyn? Pan grybwyllwyd yr amgylchedd fe'i gwelwyd yn bositif ond i rai pobl mae tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwaethygu ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae pobl eisiau gwybod pwy fydd yn gwneud beth a phryd. Mae nifer o bobl yn nodi'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl a chorfforol a bod iechyd yn golygu llawer o wahanol bethau i wahanol bobl. Mynediad at wasanaethau i helpu pobl i gymryd rheolaeth o'u lles ac annog a chefnogi pobl i wneud hynny, gan gofio tlodi sy'n bodoli'n lleol.
- Amlygwyd buddsoddiad mewn meysydd chwarae, parciau, cludiant, cysylltiadau ffyrdd, menter leol a chymdeithasol, twristiaeth a mannau agored i gefnogi creu swyddi. Nodwyd hefyd y bydd angen gweithio ar draws pob sector i fodloni'r amcanion.
- Roedd rhai pobl o'r farn bod tyfu economi gref gyda chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn rhy bell o'u dwylo, yn rhy strategol ac nid o fewn pŵer cymunedau lleol i ddylanwadu.

**Themâu ailadroddol ar yr hyn sydd ar goll neu'n anodd ei ddeall:**

- Y thema ailadroddol gryfaf oedd jargon a'r iaith a ddefnyddiwyd. Un awgrym oedd defnyddio mwy o ddiagramau neu luniau
- Roedd angen mwy o eglurhad ar rai o'r disgrifiadau, e.e. beth yw canolbwynt / parth (lleoliad rhithwir neu wirioneddol?); un ymddygiad mwy iach; gwydnwch; asedau; y Fargen Dinas; beth sy'n diffinio bregus?

- Roedd rhai hefyd o'r farn nad oes llawer o sôn am iechyd meddwl, cyn-filwyr, y trydydd sector, cyn-droseddwyr, tai a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Ein Hamcanion Lles drafft

***Cefndir:***
Rydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau fel rhan o'n Hasesiad Lles a hefyd edrychwyd ar wybodaeth leol a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rydym hefyd wedi rhannu ein gwaith cynnar gyda phobl mewn digwyddiadau cymunedol megis y 'Big Bite', gyda rhai grwpiau cymunedol a rhwydwaith ehangach o gynrychiolwyr cymunedol. Mae hyn wedi ein helpu i ddechrau datblygu'r Amcanion, gan ddefnyddio llais y gymuned i ychwanegu gwerth go iawn i wella lles yng Nghwm Taf. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cymunedau i ddatblygu atebion newydd a gwahanol i rai o'r problemau a nodwyd gan yr Asesiad. Nid oes gan Wasanaethau Cyhoeddus yr holl atebion, ond trwy weithio'n agosach gyda phobl a chymunedau, gallwn sicrhau ein bod yn clywed yr hyn sydd angen ei newid a sut y gallwn ni wella gyda'n gilydd.

**Thema: Gwydnwch a Lles Cymunedol**

## Amcan Drafft 1:

## Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

**What our Well-being Assessment told us:**

Mae teimlo'n rhan o, neu'n fel ein bod yn perthyn i, gymuned yn gwneud gwahaniaeth enfawr i les. Mae gan lawer o gymunedau yng Nghwm Taf ymdeimlad cryf iawn o ysbryd cymunedol. Rydym wedi clywed gan lawer o grwpiau o bobl sydd am wneud gwahaniaeth i les ond nid ydynt yn gwybod ble i ddechrau, a all fod yn rhwystredig. Mae iaith, hanes, cerddoriaeth, theatr, ysgrifennu, dawns, celf, chwaraeon, gwyliau, cyfryngau a gwleidyddiaeth oll yn rhan o ddiwylliant Cwm Taf. Os ydym yn meddwl am berthyn i gymuned, mae hwn yn lle da i gychwyn. Mae ysbryd cymunedol sy’n cysylltu pobl, yn eu gwneud yn hapus ac yn gwella lles a diwylliant wrth wraidd hyn i gyd. Y tirlun, yr adeiladau, yr amgylchedd naturiol a'r ieithoedd a siaredir yng Nghwm Taf yw'r pethau sy'n helpu pobl i deimlo eu bod yn perthyn, ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar hapusrwydd a lles.

Mae adeiladau yn ein cymunedau yn lefydd i bobl ddod at ei gilydd a chael gwybodaeth. Ar draws Cwm Taf, bu achosion llwyddiannus o grwpiau cymunedol yn cymryd drosodd adeiladau cymunedol. Mae angen inni ddefnyddio'r broses hon mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'r gymuned a grwpiau cymorth i gymryd rhan mewn rheoli adeiladau ac asedau fel hyn.

Mae gan y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yng Nghwm Taf amser, sgiliau a chysylltiadau y maent yn hapus i'w rhannu â'u cymunedau. Gwirfoddoli, dysgu sgiliau newydd a rhoi amser ac arian yn ôl i'n cymunedau i wneud gwahaniaeth i eraill, ar gyfer y dyfodol ac yn ein helpu i deimlo'n dda amdanom ni ein hunain. Mae gwirfoddoli yn greiddiol i les. Mae gwirfoddolwyr yn bwysig iawn i grwpiau cymunedol a busnesau yng Nghwm Taf, ac ar yr un pryd mae'n rhoi cyfle i eraill gymryd rhan yn eu cymuned a theimlo fel pe baent yn rhan o rywbeth.

Yng Nghwm Taf, mae pobl yn caru'r tirluniau hardd a mannau gwyrdd deniadol. Mae amgylchfyd naturiol yn bwysig wrth wneud i bobl deimlo'n falch, yn gadarnhaol ac yn hapus. Mewn llawer o gymunedau yng Nghwm Taf, mae gan bobl ddiddordeb mewn cymryd perchnogaeth o'r mannau awyr agored a sicrhau eu bod yn aros yn ddeniadol, yn lân ac yn ddiogel i chwarae a threulio amser ynddynt.

Mae teimlo'n ddiogel yn bwysig i ansawdd bywyd pobl. Fodd bynnag, mae rhai pobl wedi dweud wrthym fod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhwystr iddynt ddefnyddio a mwynhau eu hamgylchedd lleol.

**Camau:**

**Beth fyddwn yn gwneud:**

**Tymor byr (hyd at 5 mlynedd)**

- **Datblygu Parthau Cymunedol fel cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddulliau ar gyfer ardal neu le i wella canlyniadau i'n trigolion gyda'r heriau mwyaf**. Gyda'n cymunedau, byddwn yn gweithio i ymuno â'n gwasanaethau yng nghalon ein cymunedau. Mae'n anodd eu disgrifio nawr, gan ein bod am weithio gyda'n cymunedau i sicrhau eu bod nhw'n ateb eu hanghenion. Pan fo plant yn cael amseroedd anodd neu'n dioddef camdriniaeth neu ofid, gall hyn arwain at ganlyniadau gwael iddynt yn aml fel plant ac wrth iddynt fynd ymlaen i ddod yn oedolion. Mae'r rhain yn Brofiadau Plentyndod Gwrthgymdeithasol (PPG/ACEs). Trwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn darparu hyfforddiant a sgiliau i'n staff a'n cymunedau i atal a lleihau effaith PPG i helpu ein holl ddinasyddion i ffynnu.
    - Bydd yr ymagwedd yn cychwyn mewn dau o'n cymunedau, Gurnos ag Uwch Rhondda Fach. Bydd y Parthau yn cael eu cynnwys gyda'r cymunedau lleol i ddangos sut y bydd yn gweithio iddyn nhw. Gallai'r Parthau hyn neu ganolfannau cymunedol gynnwys y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau gwaith gan gydweithio â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol. **Blynyddoedd 1-2**
    - Bydd yr hyn rydym yn ei ddysgu wrth y cymunedau yma yn cael ei ddefnyddio wrth i'r ymagwedd gael ei ledaenu ymysg y cymunedau ar draws Cwm Taf, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i'r parthau hynny lle mae'r angen mwyaf. **Blynyddoedd 2-5**

- **Byddwn yn gweithio'n wahanol i annog ein cymunedau i gynyddu gwirfoddoli yn lleol**. Mae pobl eisiau teimlo'n rhan o'u cymuned ac mae llawer am gynnig sgiliau a chysylltiadau, a byddwn yn helpu i gael gwared ar unrhyw rwystrau i wirfoddoli ac yn sefyll yn ôl pan fydd y gymuned yn tyfu eu llwyddiant eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Gweithio gyda'n cymunedau i ddeall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a sut, gyda'n gilydd, gallwn ni helpu i adeiladu cefnogaeth i wneud gwelliannau.
    - Creu rhestr o bobl sy'n awyddus i wirfoddoli, ynghyd â'u diddordebau, adnoddau a sgiliau penodol. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion, e.e. gan gysylltu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gwneud gwobrau Bagloriaeth Cymru neu Dug Caeredin â chyfleoedd gwirfoddoli lleol.
    - Hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ar ran grwpiau cymunedol, trydydd sector, sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a busnesau.
    - Help gyda rhannau swyddogol gwirfoddoli, e.e. Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GGDG/DBS), cyngor ar oruchwyliaeth ac asesiadau risg iechyd a diogelwch.
    - Datblygu system wobrwyo i gydnabod a dathlu gwirfoddoli a'i gyflawniadau yn ein cymunedau.

- **Gweithio gyda'n cymunedau i ddarparu cysylltiadau a chyfeirio at gymunedau, y sector cyhoeddus a chymorth busnes o fewn cymunedau ac yn agos atynt e.e.**
    - Gwefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ein Cwm Taf
    - DEWIS - Gwefan sy'n darparu gwybodaeth am sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd a thrydydd sector ledled Cymru
    - byrddau gwybodaeth gymunedol lleol
    - Parthau Cymunedol,
    - Arwyddion corfforol.

- **Gweithio gydag a chefnogi cymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol.** Dywedodd pobl wrthym eu bod am fyw mewn amgylcheddau glân a diogel. Ar draws y cymoedd mae nifer cynyddol o unigolion a grwpiau sydd am ddefnyddio, rheoli a chymryd perchnogaeth o'u mannau gwyrdd agored lleol. Yn ogystal â dod â phobl at ei gilydd, bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol, lles bywyd gwyllt, a dod â synnwyr o berchnogaeth i leoedd a all feithrin balchder lleol a lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hefyd yn denu pobl i "Barc Tirwedd y Cymoedd" a gynigir gan Dasglu'r Cymoedd. Byddwn yn annog ac yn cefnogi hyn trwy:
    - Cynorthwyo grwpiau i gymryd perchnogaeth neu fabwysiadu mannau gwyrdd agored.
    - Cynorthwyo grwpiau i wella adeiladau adfywio ar gyfer defnydd cymunedol.
    - Cynorthwyo grwpiau i ddatblygu gweithgareddau creadigol yn ein mannau cymunedol
    - Helpu pobl sydd ag iechyd meddwl gwael, yn unig neu sydd wedi niweidio'r amgylchedd lleol i gymryd rhan mewn prosiectau lleol.

**Tymor Canolig (hyd at 10 mlynedd)**

**• Gwirfoddolwyr cymunedol cydlynol a gwasanaethau cyhoeddus gyda chymunedau sy'n PPG hysbys a ffyniannus**
**• Amgylcheddau diogel a dymunol a mannau gwyrdd, lle mae pobl yn falch o fyw a chymryd rhan**

**Tymor Hir (10 - 30 mlynedd)**

**• Y cymunedau sy'n siapio gwasanaethau i ddiwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr.**

**Thema: Ffordd o fyw, iechyd a bregusrwydd (Atal ac Ymyrraeth gynnar)**

## Amcan Drafft 2:
## I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

**Yr hyn a ddywedodd ein Hasesiad Lles wrthym:**

Mae cael cychwyn da mewn bywyd yn bwysig i les cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn dechrau gyda gofalu am iechyd menywod cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd a gall y cartref a'r amgylchedd ehangach effeithio arno lle mae ein plant yn tyfu i fyny. Roedd 19% o ferched yng Nghwm Taf yn 2013 yn dioddef o straen, pryder, iselder ysbryd a phroblemau iechyd meddwl eraill yn ystod beichiogrwydd. Gweler Amcan 1 hefyd mewn perthynas â PPGau.

Mae tystiolaeth yn dweud wrthym fod buddsoddiad i gefnogi lles plant yn werth da, gan fod rhaglenni blynyddoedd cynnar yn aml yn costio llai na'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddelio â'r problemau a achosir gan ddatblygiad gwael i blant. Mae'n hysbys bod chwarae a threulio amser y tu allan yn gwella iechyd. Mae un o bob pedwar o blant yng Nghymru byth yn chwarae tu allan. Mae plant yng Nghwm Taf yn mwynhau gweithgareddau heriol, awyr agored, ond maent yn teimlo bod diffyg cyfle o’r math hwn o weithgarwch iddynt gymryd rhan ynddi.

Mae iechyd yn rhan bwysig o les ac mae iechyd gwael yn effeithio ar ein gallu i ddysgu, gweithio a chymdeithasu. Yng Nghwm Taf, mae ymddygiad afiach (ysmygu, gordewdra, diet gwael, anweithgarwch ac alcohol) yn cael effaith fawr ar salwch (canser, clefyd y galon, strôc a diabetes) a marwolaethau cynnar (64% o farwolaethau cynnar dan 75 oed).

Mae cyfraddau gordewdra yn uwch yng Nghwm Taf na’r cyfartaledd dros Gymru.

Nid oes digon o bobl yn defnyddio ein hamgylchedd awyr agored i gadw'n heini ac yn iach. Mae lefelau gweithgaredd corfforol oedolion yng Nghwm Taf ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae angen inni sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn gwybod am y manteision iechyd meddwl a chorfforol o dreulio amser yn yr awyr agored a gwybod faint y gallai fod y tu allan wella eu lles. Mae gan Gwm Taf y lefelau uchaf o salwch meddwl a lles gwael yng Nghymru.
Mae angen i bobl hefyd wybod ble gallant fynd a beth y gallant ei wneud a gwybod sut y gall yr awyr agored, natur a bywyd gwyllt fod yn dda iddynt. Mae defnyddio llwybrau troed neu lwybrau beicio i fynd o gwmpas (teithio 'actif') yn ein helpu i gadw'n heini. Mae hefyd yn golygu bod pobl yn gallu cyrraedd lleoedd na allent fod fel arall yn gallu cyrraedd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu i weithio yno.

Os ydym am i'r oedolion yn ein poblogaeth fod yn iach ac yn heini, mae'n bwysig bod y broses yn dechrau yn ystod plentyndod. Mae 28% o blant Cwm Taf yn rhy drwm neu'n ordew erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn arwain at broblemau iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae plant yng Nghwm Taf yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau ac maent yn llai egnïol yn gorfforol na phlant mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae'n hysbys bod chwarae a threulio amser y tu allan yn gwella iechyd. Mae plant yng Nghwm Taf yn mwynhau gweithgareddau heriol, awyr agored, ond maent yn teimlo bod diffyg o’r math

hwn o weithgarwch iddynt gymryd rhan ynddi.

Mae pobl yng Nghwm Taf yn byw'n hirach, ac yn byw'n hirach mewn iechyd da, sy'n newyddion da. Fodd bynnag, mae pobl sy'n byw yn rhannau mwyaf difreintiedig Cwm Taf yn byw bywydau byrrach. Ar gyfer dynion, mae hyn yn 7.4 mlynedd yn fyrrach ac ar gyfer menywod 3.7 mlynedd yn fyrrach na'r rhai sy'n byw yn ein hardaloedd lleiaf difreintiedig.

Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif o ba hyd y gellir disgwyl i bobl fyw mewn iechyd "da" neu "eithaf da". Mae'r bwlch disgwyliad oes iach yng Nghwm Taf rhwng ein hardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yn 15 mlynedd ar gyfer dynion a menywod.

Mae angen inni sicrhau wrth fod pobl yn heneiddio eu bod yn parhau i gael lles da. Mae ein poblogaeth 65 oed a throsodd yn mynd i gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda'r rhagamcaniad mwyaf yn y rhai 85 oed a throsodd. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn salwch cronig sy'n gysylltiedig ag oedran a bydd yn cael effaith sylweddol ar bobl, gofalwyr a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pobl hŷn yng Nghwm Taf yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth a’r ffaith eu bod yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn disgwyl cael eu trin ag urddas a pharch, mae ganddynt fynediad hawdd at wybodaeth dda a chludiant hygyrch. Bydd yn rhaid i gynlluniau'r dyfodol edrych ar anghenion tai y grŵp oedran hwn, gan fod angen amrywiaeth o dai mwy addasadwy ac arbenigol. Mae traean o'n poblogaeth 65 oed a throsodd yn byw ar eu pennau eu hunain ac mae gan rai bryderon am fod yn unig. Yn y dyfodol, bydd angen i gymunedau fod yn fwy "cyfeillgar i oed". Gellir gwneud hyn trwy greu cartrefi a chymdogaethau sy'n helpu pobl hŷn i barhau i fod yn weithgar ac yn ymwneud â'u ffrindiau, cymdogion, teuluoedd a chymuned leol.

Wrth i'n poblogaeth hŷn gynyddu, felly bydd y nifer y rheiny sy’n dioddef o ddementia yng Nghwm Taf. Yn 2015, roedd tua 3,685 o bobl dros 65 oed wedi eu heffeithio gan ddementia yng Nghwm Taf. Amcangyfrifir y bydd hyn yn codi i 5,455 erbyn 2030.

**Camau:**
**Beth fyddwn yn gwneud:**

**Tymor byr (hyd at 5 mlynedd)**

- **Targedu ein cefnogaeth yn yr ardaloedd sydd â'r sialensiau mwyaf, gan weithio gyda'n cymunedau i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i fyw bywydau hir a hapus.** Mae atal pethau cyn iddynt ddigwydd yn cael yr effaith orau, ond os na allwn eu hatal byddwn yn gweithredu'n gynnar i helpu i wella ac atal pethau rhag gwaethygu. Mae rhai meysydd lle mae gan y dull hwn effaith well fyth:

    - Y blynyddoedd cynnar, ac yn enwedig y 1000 diwrnod cyntaf o feichiogrwydd hyd at ddwy flwydd oed, yw'r amser datblygu pwysicaf. Ynghyd â rhieni, darpar rieni a darparwyr gofal plant, gallwn ni helpu i greu'r amgylchedd gorau i'n plant gael dechrau da mewn bywyd. Dyma ddull sy'n gallu helpu ein pobl ieuengaf i gael y canlyniadau gorau mewn bywyd. Mewn Parthau Cymunedol, gallwn ni weithio

gyda'n gilydd i helpu i oresgyn yr heriau sy'n wynebu pobl, gan gynnwys cymorth i ennill sgiliau, gwasanaethau, cysylltu â swyddi lleol neu gyfleoedd gwirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol. Gan weithio gyda'n cymunedau a thynnu ein gwasanaethau at ei gilydd, gallwn ni helpu i gael y gefnogaeth gywir i'r bobl iawn ar yr adeg iawn.
  - Mae cydweithio â phobl hŷn i gadw'n heini ac yn iach cyhyd â phosib er budd pawb. Gwyddom, wrth inni fyw'n hirach, fod yn bwysicach fyth y gallwn fod yn ddigon da i fwynhau ein blynyddoedd hŷn. Mae hwn yn amser, wrth fod llawer o bobl yn ymddeol, y gallwn dreulio mwy o amser yn rhan o'n cymunedau. Mae bod yn egnïol, cymryd rhan a mwynhau bywydau iach yn ein helpu i fyw'n hirach ac yn lleihau unigrwydd.

- **Cydweithio fel gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau i leihau lefelau gordewdra.** Gan fod lefelau gordewdra ymhlith plant ac oedolion yn cynyddu yng Nghwm Taf mae'n cael effaith wael ar ein hiechyd, yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae yna lawer o achosion gan gynnwys mynediad gwael i fwyd iach, lefelau gweithgaredd corfforol isel, mynediad hawdd i fwyd cyflym, dibynnu ar geir, bwyta cysur oherwydd profiadau gwael ac incwm isel i enwi ond ychydig. Nid oes ateb syml, felly mae angen inni gydweithio i wella. Mae'r ffyrdd y gallwn ni weithio gyda'n gilydd yn cynnwys:

  - Sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i gerdded a beicio i'r gwaith a'r ysgol gan sicrhau bod llwybrau diogel i ysgolion, lleoliadau cymunedol, yr amgylchedd awyr agored a chysylltiadau Metro newydd i annog cerdded a beicio.
  - Integreiddio gweithgareddau awyr agored i fywydau bob dydd, e.e. milltir ddyddiol a dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion, gan nodi llwybrau cerdded ger gweithleoedd i annog gweithgaredd mewn egwyliau, llwybrau cerdded ym mhob cymuned.
  - Gwella bwydlenni mewn mannau bwyd a reolir gan y cyhoedd i gynnig dewisiadau mwy iach.
  - Gan ddefnyddio ein Cynlluniau Datblygu Lleol, cynllunio cyfreithiau a thir sy'n eiddo i'r cyhoedd i gynyddu mynediad diogel i'r awyr agored, cerdded a beicio gydag ystod iach o siopau bwyd.
  - Cysylltiadau â dementia a mynd i'r afael ag unigrwydd.

- **Hyrwyddo ffyrdd o fyw iach trwy annog pobl i ymgymryd ag ymagwedd "Un Ymddygiad Iach Yn Fwy" gyda'r holl staff a defnyddwyr gwasanaeth.** Y pum ymddygiad iach yw:
  - Peidio ysmygu
  - Cadw pwysau iach
  - Gweithgaredd corfforol rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol
  - Bwyta diet iach, gan gynnwys 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd
  - Lleihau camddefnyddio alcohol a sylweddau

  Byddwn yn:
- **Hyrwyddo ymddygiadau iach gyda'n staff**. Mae ein staff yn cynrychioli tua chwarter y gweithlu yng Nghwm Taf ac yn cael effaith fawr ar ein cymunedau, gyda'r mwyafrif yn byw yn yr ardal. Byddwn yn cefnogi ein staff i wella ymddygiad iach gyda

gweithleoedd iach a thrwy gefnogi gwirfoddoli.

- **Hyrwyddo ymddygiadau iach gyda defnyddwyr gwasanaeth**. Ein defnyddwyr gwasanaeth yw pobl Cwm Taf. Byddwn yn hyrwyddo a chefnogi ein cymuned i fanteisio ar gyfleoedd lleol a gwasanaethau cymorth mewn modd cydlynol, gan ddarparu gwybodaeth ddibynadwy, cyfeirio a mynediad at wasanaethau. Byddwn yn hyrwyddo "rhagnodi cymdeithasol" yn ein gwasanaethau, lle mae gwella ffordd o fyw yw'r ffordd orau o wella iechyd. Mae rhagnodi cymdeithasol yn galluogi gwasanaethau i gysylltu pobl sydd angen cymorth cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol i wella eu ffordd o fyw i wasanaethau lleol yn eu cymuned.

**Tymor Canolig (hyd at 10 mlynedd)**
**• Lleihau bregusrwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio trwy wella cyfraddau'r boblogaeth sydd â 4 neu 5 ymddygiad iach i 20%.**

**Tymor Hir (10 - 30 mlynedd)**
**• Gwella cyfraddau disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yng Nghwm Taf i'r cyfartaledd yng Nghymru.**

**Thema: Economi a Seilwaith (egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy)**

## Amcan Ddrafft 3:
## I dyfu economi leol gref gyda chludiant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.

**Yr hyn a ddywedodd ein Hasesiad Lles wrthym:**

